

**Cyflwynwyd yr ymateb hwn i ymgynghoriad y [Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Flaenoriaethau'r Chweched Senedd](#)**

**This response was submitted to the [Children, Young People and Education Committee](#) consultation on [Sixth Senedd Priorities](#)**

**CYPE SP 27**

**Ymateb gan: Gillian Mitchell, Prif Weithredwr, Celfyddydau Cenedlaethol Ieuencid Cymru**

**Response from: Gillian Mitchell, Chief Executive, National Youth Arts Wales**

---

Beth yn eich barn chi yw'r prif flaenoriaethau neu'r materion y dylai'r Pwyllgor eu hystyried yn ystod y Chweched Senedd? Os oes modd, nodwch eich barn o ran sut y gallai'r Pwyllgor fynd i'r afael â hyn.

What do you consider to be the main priorities or issues that the Committee should consider during the Sixth Senedd? Where possible, please set out your view about how the Committee could address them.

**Thema 1: Addysg oedran ysgol | Theme 1: School-age education**

Celfyddydau Cenedlaethol Ieuencid Cymru yw'r elusen genedlaethol ar gyfer actorion, dawnswyr a cherddorion dawnus a thalentog rhwng 16 a 22 oed ledled Cymru. Yn fwyaf adnabyddus am weithredu ensembles ieuencid cenedlaethol Cymru (theatr,awns, cerddorfa, band pres, côr a cherddorfa chwyth), rydym wedi ehangu ein gwaith yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, o tua 14 oed ymlaen, i gynnwys amrywiaeth o brosiectau datblygu sydd wedi'u cynllunio i wella mynediad at hyfforddiant lefel uchel. Mae hyn yn cynnwys Cerdd y Dyfodol, cynllun mentora cenedlaethol cyntaf Cymru ar gyfer cerddorion roc a phop mewn ysgolion.

Er bod y bobl ifanc rydym yn gweithio gyda nhw yn yr ysgol uwchradd neu addysg bellach/uwch, rydym yn ymwybodol iawn bod eu datblygiad artistig yn dechrau'n llawer iawn iau. Mae cyflwyno Cwricwlwm newydd Cymru yn ddatblygiad cyffrous, ac rydym yn awyddus i weithio gyda phartneriaid i sicrhau bod ei weledigaeth uchelgeisiol yn cael ei chyflawni.

Yn ein barn ni, dylai fod dau brif nod i addysg Celfyddydau Mynegiannol mewn



ysgolion: yn gyntaf, sicrhau bod pob disgybl yn cael cyfleoedd i fod yn greadigol ac i fwynhau'r celfyddydau ar gyfer eu cyfoethogiad nhw eu hunain; ac yn ail, nodi ac annog perfformwyr dawnus a thalentog, gan gyfeirio at gyfleoedd i ddatblygu ymhellach, a chaniatáu i bobl ifanc anelu at yrfa yn y diwydiannau creadigol.

**Byddem yn annog y Pwyllgor i weithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y Cwricwlwm newydd i Gymru yn canolbwyntio ar y ddau nod hyn, er mwyn sicrhau bod pawb yn cael y cyfle i archwilio eu creadigrwydd eu hunain, gyda'r rhai sydd am symud ymlaen i'r diwydiannau creadigol yn elwa ar ddatblygu sgiliau mewn modd teilwriedig o oedran cynnar.**

Mae'r cynlluniau arfaethedig ar gyfer Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol i Gymru hefyd o ddiddordeb arbennig inni, a'r modd y bydd hyn yn helpu i wella'r ddarpariaeth gerddorol ledled Cymru, a sut bydd yn annog pobl ifanc i ailddechrau'r broses o ddysgu offeryn os ydyn nhw wedi rhoi'r gorau i wersi yn ystod y pandemig. Gwasanaethau cerddorol yw asgwrn cefn cerddoriaeth ieuenctid yng Nghymru, ac mae'n chwarae rôl ffurfiannol hanfodol yn natblygiad cerddorion ifanc.

Fodd bynnag, gyda'r cyfle hwn i ddatblygu addysg cerddoriaeth ein cenedl, rhaid inni fanteisio ar y cyfle hwn i sicrhau bod hyfforddiant cerddoriaeth ar gael i bawb. Ar hyn o bryd, mae cynrychiolaeth pobl ifanc o deuluoedd incwm is, o gymunedau Du, Asiaidd ac ethnig amrywiol, a phobl ifanc ag anabledd, yn sylweddol is ymhlith y rhai sy'n cymryd rhan mewn addysg cerddoriaeth. Mae llw o resymau dros hyn – mae ffioedd yn un rhan o'r broblem, ond nid dyma'r unig rwystr rhag cymryd rhan. Ymhlith y ffactorau eraill mae cynrychiolaeth ymhlith athrawon a'r diwydiannau creadigol yn gyffredinol, anogaeth gan athrawon, rhieni a modelau rôl, a pherthnasedd diwylliannol y celfyddydau (yn enwedig ffurfiau celf clasurol y Gorllewin) i fywyd y person ifanc hwnnw.

Fel llawer o sefydliadau celfyddydol eraill, rydym o'r farn bod angen gwneud llawer mwy i sicrhau bod pobl ifanc o bob cefndir yn cael cyfleoedd yn y diwydiannau creadigol. Byddwn yn canolbwyntio amser ac adnoddau ychwanegol i gefnogi perfformwyr ifanc o gymunedau Du, Asiaidd ac ethnig amrywiol, a pherfformwyr ifanc ag anableddau. Mae hefyd yn bryder inni nad yw'r ddarpariaeth gelfyddydol wedi'i rhannu'n gyfartal ledled y genedl, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Fodd bynnag, os nad ymdrinnir ag amrywiaeth a darpariaeth deg ar lawr gwlad, ni fyddwn yn gallu gwneud cymaint o gynnydd.



Byddai hyn yn cael effaith uniongyrchol ar amrywiaeth a thegwch yn y diwydiannau diwylliannol am genedlaethau i ddod.

**Byddem yn annog y Pwyllgor i helpu i sicrhau y gall Gwasanaeth Cerdd Cenedlaethol arfaethedig Cymru ddarparu addysg gerddoriaeth deg i bob person ifanc yng Nghymru – waeth beth fo'u lleoliad, eu cefndir ariannol, eu hethnigrwydd neu eu hanabledd. Byddem yn annog y Pwyllgor i sicrhau bod yr holl rwystrau rhag mynediad – nid y rhai ariannol yn unig – yn cael eu hystyried yn llawn fel rhan o'r gwaith craffu ar y gwaith parhaus hwn.**

**Byddem hefyd yn annog y Pwyllgor i ystyried sut y gall yr holl bartneriaid sy'n cyflenwi cerddoriaeth – nid y gwasanaethau cerddoriaeth sy'n bodoli eisoes yn unig – gyfrannu at y strategaeth genedlaethol, yn enwedig y rhai sy'n gweithredu y tu allan i fframwaith cerddoriaeth glasurol traddodiadol y Gorllewin, megis cerddoriaeth roc, pop, jazz, electronig a chyfoes.**

---

National Youth Arts Wales is the national charity for gifted and talented actors, dancers and musicians aged 16 – 22 throughout Wales. Best known for operating Wales's national youth ensembles (theatre, dance, orchestra, brass band, choir and wind orchestra), we have in recent years dramatically expanded our work, from around age 14 onwards, to include a variety of development projects designed to improve access to high-level training. This includes Music Futures, Wales's first national mentoring scheme for rock and pop musicians in schools.

Although the young people we work with are in secondary school or further/higher education, we're very conscious that their artistic development starts much, much younger. The introduction of the new Curriculum for Wales is an exciting development, and we're keen to work with partners to ensure that its ambitious vision is met.

In our view, Expressive Arts education in schools should have two principal aims: firstly, to ensure that all pupils are given opportunities to be creative and to enjoy the arts for their own enrichment; and secondly, to identify and encourage gifted and



talented performers, signposting to opportunities for further development, and to allow young people to aspire towards a career in the creative industries.

We would encourage the Committee to work with Welsh Government to ensure that the new Curriculum for Wales focuses on both of these aims, to ensure everyone has the opportunity to explore their own creativity, with those who want to progress into the creative industries benefitting from tailored skills development from an early age.

**We are also particularly interested in the proposed National Music Service for Wales, how this will help “level up” music provision across Wales, and how it will encourage young people to restart learning an instrument if they have stopped lessons during the pandemic. Music services are the backbone of youth music in Wales, forming a critical formative role in the development of young musicians as they progress.**

However, with this opportunity to develop our nation’s music education, we must take this opportunity to ensure that music tuition is truly available to everyone. Currently, young people from lower income families, from Black, Asian and ethnically diverse communities, and young people with a disability, are considerably under-represented within those taking part in music education. The reasons for this are many – fees are one part of the issue, but are not the only barrier to taking part. Other factors include representation amongst teachers and the creative industries in general, encouragement from teachers, parents and role models, and the cultural relevance of the arts (particularly Western classical artforms) to that young person’s life.

Like many other arts organisations, we believe we need to do much more to ensure that young people from all backgrounds are given opportunities in the creative industries. We will be focusing additional time and resource to support young performers from Black, Asian and ethnically diverse communities, and young performers with a disability. We are also concerned that arts provision is not evenly distributed throughout the nation, particularly in rural areas. However, if the issue of diversity and equitable provision is not addressed at grassroots level, we will not be able to make as much progress. This would have a direct impact in diversity and equity within the cultural industries for generations to come.

**We would encourage the Committee to help ensure that the proposed National Music Service for Wales can provide equitable music education to every young person in Wales – regardless of their location, financial background, ethnicity or disability. We would encourage the Committee to ensure that all barriers to**



access – not just financial – are properly considered in full as part of the scrutiny into this ongoing work.

We would also encourage the Committee to consider how all music delivery partners – not just existing music services – can contribute towards the national strategy, particularly those operating outside of the traditional Western classical music framework, such as rock, pop, jazz, electronic and contemporary music.

## **Thema 2: Addysg bellach ac addysg uwch | Theme 2: Further and higher education**

Rydym yn awyddus i sicrhau bod datblygu sgiliau a pharatoi pobl ifanc ar gyfer cyflogaeth yn flaenoriaethau allweddol. Rydym yn helpu i baratoi pobl ifanc ar gyfer y diwydiannau creadigol drwy ein rhaglenni hyfforddi arbenigol, a rhoi'r hyder i bobl ifanc symud ymlaen ymhellach.

Mae CCIC hefyd yn darparu cyfleoedd cyflogaeth ieuencid, gan gynnwys cynllun Cynhyrchydd dan Hyfforddiant, lle telir y Cyflog Byw Go lawn, sydd wedi'i gynllunio i helpu graddedigion ifanc o deuluoedd incwm is i ymuno â gweithlu'r diwydiannau creadigol. Rydym wedi ehangu'r gwaith hwn yn ddiweddar i gynnwys dwy rôl Cynhyrchydd dan Hyfforddiant a gedwir yn benodol ar gyfer pobl ifanc o gymunedau Du, Asiaidd ac ethnig amrywiol.

Mae datblygu sgiliau a pharatoi pobl ifanc ar gyfer gwaith yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, rydym o'r farn nad yw'r model prentisiaeth presennol yn gweddu orau i'r diwydiannau creadigol, ac felly mae angen dull mwy pwrpasol ar gyfer perfformwyr, artistiaid a chynhyrchwyr. **Byddem yn annog y Pwyllgor, ynghyd â Llywodraeth Cymru, i ddatblygu cyfleoedd i ddatblygu sgiliau yn rhagweithiol, gan gynnwys cyfleoedd pwrpasol sy'n gweddu i'r diwydiannau creadigol ac sy'n creu gweithlu mwy amrywiol a medrus yng Nghymru.**

---

We are keen to ensure that skills development and preparing young people for employment are key priorities. We help prepare young people for the creative industries through our specialist training programmes, and giving young people the confidence to progress further.



NYAW also provides youth employment opportunities, including a Trainee Producer scheme, paid at the Real Living Wage, designed to help young graduates from lower-income families to join the creative industries workforce. We have recently expanded this work to include two Trainee Producer roles specifically reserved for young people from Black, Asian and ethnically diverse communities.

Skills development and preparing young people for work is rightly a key priority for the Welsh Government. However, we believe that the current apprenticeship model is not best suited to the creative industries, and so a more bespoke approach is needed for performers, artists and producers. **We would encourage the Committee, along with the Welsh Government, to proactively develop opportunities for skills development, including bespoke opportunities that suit the creative industries and create a more diverse and skilled workforce in Wales.**

### **Thema 3: Iechyd a lles, gan gynnwys gofal cymdeithasol (i'r graddau y maent yn ymwneud â phlant a phobl ifanc) | Theme 3: Health and well-being, including social care (as they relate to children and young people)**

Mae'r diwydiannau creadigol wedi cael dylanwad aruthrol o bositif ar fywydau pobl Cymru – ar eu hiechyd a'u lles, ar yr economi a sgiliau, ac fel rhan o'n bywyd diwylliannol. Hoffem weld gwerthusiad pellach o'r celfyddydau a'u heffaith ar ein hiechyd a'n lles, ac ar yr economi, i sicrhau bod y diwydiannau creadigol yn parhau i gael eu gweld fel rhan annatod o fywyd yng Nghymru.

Mae pandemig Covid-19 wedi effeithio'n ddifrifol ar iechyd meddwl pobl ifanc. Rydym yn ofni y bydd nifer fawr o bobl ifanc yn colli hyder yn eu galluedd perfformio, neu hyd yn oed yn rhoi'r gorau i'r sector yn gyfan gwbl oherwydd diffyg hyder, er mai'r amgylchiadau eithriadol sydd wedi effeithio arnynt mewn gwirionedd.

Rydym yn arbennig o bryderus ynghylch sut y bydd hyn yn effeithio ar y cyflenwad o dalent, nid yn unig yn y flwyddyn nesaf, ond yn y 5-10 mlynedd nesaf, wrth i ddechreuwy'r heddiw ddatblygu i fod yn artistiaid talentog. Credwn fod angen strategaeth genedlaethol a mwy o adnoddau i sicrhau bod pobl ifanc sydd wedi rhoi'r gorau i berfformio yn ystod y pandemig – ar bob lefel – yn cael eu hannog i aildddechrau ac i gael budd o'r celfyddydau perfformio unwaith eto, a'u bod yn cael yr hyder i wneud.

**Byddem yn annog y Pwyllgor i weithio gyda Llywodraeth Cymru, a gyda phartneriaid a rhanddeiliaid, i sicrhau bod gwasanaethau cerddoriaeth a'r sectorau celfyddydau perfformio theatr/dawns yn cael y cymorth sydd ei angen i sicrhau bod pobl ifanc yn gallu dychwelyd i berfformio ar ôl y pandemig.**



**Byddem yn annog y Pwyllgor i barhau â'i waith i sicrhau bod iechyd meddwl pobl ifanc yn brif flaenoriaeth, gan gynnwys, lle bo angen, cymorth arbenigol i artistiaid a pherfformwyr sy'n profi "pryder perfformiad" a phryderon iechyd meddwl eraill sy'n ymwneud â'u gwaith artistig.**

---

The creative industries have a huge positive impact on the lives of the people of Wales – on their health and wellbeing, on the economy and skills, and as part of our cultural life. We would like to see further evaluation of the arts and their impact on health and wellbeing, and on the economy, to ensure that the creative industries continue to be regarded as a crucial part of Welsh life.

Young people have had their mental health severely impacted by the Covid-19 pandemic. We fear that a large number of young people will lose confidence in their performing abilities, or even drop out of the sector altogether due to lack of confidence, when in fact they have been impacted by exceptional circumstances.

We are particularly concerned about how this will affect the talent pipeline not just in the next year, but in the next 5-10 years, as today's beginners progress through to become talented artists. We believe that a national strategy and more resource is needed to ensure that young people who have stopped performing during the pandemic – at all levels – are encouraged and given the confidence to restart and benefit from the performing arts once again.

**We would encourage the Committee to work with the Welsh Government, and with partners and stakeholders, to ensure that music services and the theatre/dance performing arts sectors are given the support needed to ensure that young people are able to get back into performing post-pandemic.**

**We would urge the Committee to continue its work to ensure that young people's mental health is a top priority, including where necessary specialist support for artists and performers experiencing "performance anxiety" and other mental health concerns relating to their artistic practice.**

#### **Thema 4: Plant a phobl Ifanc | Theme 4: Children and young people**

Credwn y dylai fod gan bob plentyn a pherson ifanc yr hawl i fynegi ei hun drwy'r celfyddydau, i'w cyfoethogiad a'u datblygiad personol nhw eu hunain. I'r rhai sy'n dangos talent ac angerdd, credwn y dylai'r rhai sydd am weithio tuag at yrfa yn y diwydiannau creadigol gael eu cyfeirio at y cyfleoedd datblygu sgiliau cywir i'r person hwnnw.



Rhan allweddol o'n gwaith parhaus yw sicrhau ymhellach bod gan bobl ifanc sy'n elwa o'n gwaith lais yn y ffordd y caiff ein gwasanaethau eu darparu a'u llywodraethu. Rydym yn datblygu mwy a mwy o brosiectau sy'n cael eu cyd-greu gyda phobl ifanc, gan roi perchnogaeth go iawn iddynt yn y gwaith a wnawn.

Yn fwyaf diweddar, cawsom ein comisiynu gan Gyngor Celfyddydau Cymru i gyflawni, mewn partneriaeth â Rhwydwaith Celfyddydau Ieuencid Cymru, ymgynghoriad â phobl ifanc a'r sector celfyddydau ieuencid, sydd newydd adrodd yn ôl. Rydym hefyd wedi gweithio gyda'n haelodau yn ddiweddar i'w hysbysu'n well am waith Llywodraeth Cymru a Senedd Cymru, yn y cyfnod cyn etholiadau Senedd Cymru 2021 – yr etholiad cyntaf lle'r oedd pobl ifanc 16 ac 17 oed yn gallu pleidleisio. (Gallwch ddarllen rhagor am y gwaith hwn yma: <https://www.ccic.org.uk/news/manifest-1617-ffilm-fer-newydd>)

Mae pobl ifanc yn dweud wrthym, mewn rhai rhannau o addysg a'r sectorau creadigol, ac mewn sawl rhan o'r sector cyhoeddus, nad ydynt yn teimlo bod eu lleisiau'n cael eu clywed, ac nad ydynt yn deall sut mad modd iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau.

**Byddem yn annog y Pwyllgor i ddwyn pob rhan o'r sector cyhoeddus i gyfrif, i annog y sector cyhoeddus i gymryd ysbryd cyd-greu ac ymgynghori ag ieuencid o ddifrif, ac i sicrhau eu bod yn cyflawni eu rolau sydd wedi'u hymgorffori yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.**

---

We believe that every child and young person should have the right to express themselves through the arts, for their own enrichment and personal development. For those who show talent and passion, we believe that those who want to work towards a career in the creative industries should be signposted to the right skills development opportunities for that person.

A key part of our ongoing work is to further ensure that young people who benefit from our work have a voice in how our services are delivered and governed. We are developing more and more projects that are co-created with young people, giving them real agency in the work that we do.

Most recently, we were commissioned by Arts Council of Wales to deliver, in partnership with Youth Arts Network Cymru, a consultation with young people and the youth arts sector, which has just reported back. We have also recently worked with our members to better inform them of the work of the Welsh Government and Senedd Cymru, in the lead-up to the 2021 Senedd Cymru elections – the first where





16 and 17-year-olds were able to vote. (You can read more about this work here: <https://www.nyaw.org.uk/news/maniffest-1617-short-films>)

Young people tell us that in some parts of education and the creative sectors, and in many parts of the public sector, they don't feel listened to, and don't understand how they can influence decision making. **We would encourage the Committee to hold all parts of the public sector to account, to encourage the public sector to take the spirit of co-creation and youth consultation seriously, and to ensure that they are fulfilling their roles enshrined in the Wellbeing of Future Generations Act.**

